

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod	19 Medi 2023
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Gill German, Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc
Pennaeth Gwasanaeth	Geraint Davies, Pennaeth Addysg
Awdur yr Adroddiad	James Curran a Carwyn Edwards
Teitl	Prosiect Ysgol Plas Brondyffryn – Ysgol Newydd Arfaethedig

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ynghylch y safle a ffefrir ar gyfer gweithredu prosiect adeiladu newydd ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Mae angen penderfyniad i gadarnhau lleoliad y safle a ffefrir i alluogi'r prosiect i barhau a fyddai'n galluogi cais cynllunio ffurfiol er mwyn i'r cynigion gael eu cyflwyno.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Cymeradwyo'r safle a ffefrir ar gyfer adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn ar safle Ffordd Ystrad, a ddangosir fel safle A ar y cynllun atodedig yn Atodiad 2 a chytuno i gefnogi symud ymlaen trwy gyflwyno cais cynllunio.
- 3.2 I gytuno bod yn rhaid i'r cais cynllunio ddangos yn glir y bydd colli gofod hamdden trwy ddatblygu ar gae chwarae'r ysgol yn cael ei ddisodli gan ddarpariaeth awyr agored amgen o fudd cymunedol cyfatebol neu fwy.

- 3.3 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Fel rhan o gynigion Band B ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (a elwid yn Ysgolion y 21ain Ganrif yn flaenorol), rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth ym mis Medi 2020 i ddechrau'r prosiectau ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn, Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgol Pendref yn Ninbych ac Ysgol Bryn Collen ac Ysgol Gwernant yn Llangollen.
- 4.2. Mae Ysgol Plas Brondyffryn yn ysgol i blant a phobl ifanc 3-19 oed sy'n cynnig darpariaeth arbenigol i ddisgyblion sydd ag awtistiaeth. Y cynnig yw dod â 3 o'r 4 safle presennol yn Ninbych at ei gilydd mewn adeilad pwrpasol a chynyddu capasiti'r ysgol wrth i'r galw am y llefydd arbenigol hyn gynyddu. Nid yw'r Cyngor yn gallu bodloni'r galw am ddarpariaeth wrth symud ymlaen a bydd y cynnydd yn nifer y lleoedd yn caniatáu'r Cyngor i ymateb i'r angen am ddarpariaeth arbenigol.
- 4.3. Yn ystod 2021 cynhaliwyd gwaith i gaffael y contractwr a ffefrir ar gyfer prosiect Ysgol Plas Brondyffryn sy'n galluogi'r contractwr a ffefrir i gael ei benodi ar ddiwedd y flwyddyn. Ar ddechrau 2022 cynhaliwyd gwaith dichonoldeb pellach ar y cynnig am adeilad newydd a chynhaliwyd ymgynghoriad gyda budd-ddeiliaid yn cynnwys ymgynghori â Grŵp Ardal Aelodau Dinbych. Arweiniodd hyn at ddatblygu dyluniadau arfaethedig ar gyfer yr adeilad newydd arfaethedig a gwaith safle ar safle Ffordd Ystrad (safle A) ar gyfer cynnal ymgynghoriad cynllunio anffurfiol ym mis Medi 2022. Roedd y prif broblemau a godwyd o'r ymgynghoriad cynllunio anffurfiol yn ymwneud â dewis safle, colli cyfleusterau chwaraeon a mynediad priffyrdd. Cyn hyn roedd gwaith dichonolrwydd wedi dechrau i edrych â'r sut ellir gwella'r cae chwaraeon yn Ysgol Uwchradd Dinbych. Roedd y rhain yn ceisio mynd i'r afael â materion yn ymwneud â draenio a thopograffi ac yn dangos sut ellir gosod y cae ar gyfer gemau tîm ac athletau yn cynnwys trac rhedeg 400 metr o fewn y cae. Derbyniwyd y canfyddiadau yn yr hydref ac fe'u rhannwyd gyda Grŵp Ardal Aelodau Dinbych ym mis Rhagfyr (gweler Atodiad 4).
- 4.4. Ym mis Hydref 2022, bu i Aelodau o Grŵp Ardal Aelodau Dinbych gefnogi'r angen am gyfleusterau gwell ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn ond mynegwyd

pryderon am y cynigion fel y'u cyflwynwyd a gofynnwyd i oedi cyflwyno cais cynllunio ffurfiol wrth ddisgwyl am adolygiad pellach o'u pryderon. Yn ystod y cyfnod hwn gofynnwyd i swyddogion asesu safleoedd a lleoliadau amgen yn nhref Dinbych a thu hwnt. Cynhaliwyd gwaith dichonoldeb pellach ar safle amgen a awgrymwyd gan yr Aelodau (safle B) i asesu a oedd yn ymarferol i symud ymlaen ar y safle arall hwn. (Mae Atodiad 2 yn dangos yr ardal gynllunio ar gyfer Safleoedd A a B). Cyflwynwyd y canfyddiadau i Grŵp Ardal Aelodau Dinbych ym mis Mawrth 2023 (gweler Atodiad 6). Consensws aelodau'r Grŵp Ardal Aelodau oedd eu bod yn ffafrio symud ymlaen gyda Safle B. I gynorthwyo unrhyw ystyriaethau pellach o'r safle hwn, cafwyd cyngor cwnsler cyfreithiol ar y risgiau i'r Cyngor o ddatblygu ar y safle amgen o safbwynt polisi cynllunio.

- 4.5. Mae barn Swyddogion Addysg yn parhau'n gyson bod gofyniad cryf iawn i'r ysgol gael ei lleoli yn Ninbych ac mai'r dewis a ffefrir yw'r safle cychwynnol yn hytrach na'r safle a gynigiwyd gan yr Aelodau. Mae barn y Swyddogion Polisi Cynllunio o ystyried y farn gyfreithiol yn amlwg iawn. Mae'n amlwg mai Safle A yw'r dewis a ffefrir ac mae Safle B yn broblemus iawn i'w ddadlau o ystyried bodolaeth Safle A. (gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion)
- 4.6. Cyflwynwyd y safbwyntiau hyn i gyfarfod arbennig Grŵp Ardal Aelodau Dinbych ym mis Gorffennaf 2023 i gael eu barn ar y cyngor a dderbyniwyd. Yn gyffredinol, consensws y Grŵp Aelodau oedd mai Safle B oedd yn dal i fod y dewis a ffefrir ganddynt.
- 4.7. Bwriad y rhaglen ydi symud tri prosiect ymlaen yn nhref Dinbych; bydd ailddatblygiad Ysgol Uwchradd Dinbych yn dilyn Ysgol Plas Brondyffryn tra ar yr un pryd mae prosiect yn mynd rhagddo ar gyfer Ysgol Pendref. Bydd effaith y prosiectau mewn perthynas â manau agored yn cael ei hystyried yn ofalus a bydd Addysg yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Gynllunio i geisio sicrhau'r buddion mwyaf posibl yn y gwelliannau i fannau agored yn y dref. Mae Atodiad 5 yn dangos y ddarpariaeth bresennol a, lle bo'n bosibl, trwy symiau gohiriedig neu fudd cymunedol, bydd opsiynau ar gyfer gwelliannau yn cael eu dilyn.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

- 5.1. Sir Ddinbych Ffyniannus – bydd y prosiect yn llwyddo i gadw dros 100 o swyddi yn nhref Dinbych yn yr ysgol a bydd y cyfnod adeiladu yn arwain at fuddion economaidd i'r dref trwy wariant lleol. Bydd angen i'r prosiect ddangos buddion cymunedol.
- 5.2. Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus – bydd y prosiect yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu parhau i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn nes at y cartref.
- 5.3. Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu – bydd y prosiect yn sicrhau ein bod yn darparu adeiladau a chyfleusterau o safon uchel, gan weithio mewn partneriaeth â Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Bydd y prosiect yn adlewyrchu'r rhaglen Ysgolion Bro i helpu i fodloni anghenion disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.
- 5.4. Sir Ddinbych mwy gwyrdd - Bydd yr adeilad newydd arfaethedig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at nod y Cyngor i fod yn Ddi-garbon Net erbyn 2030. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd gofyn i'r holl brosiectau adeiladau newydd, o 1 Ionawr 2022, ddangos eu bod yn bodloni targedau Di-garbon Net. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddant yn ariannu hyn yn llawn yn unol â'r meincnodau y maent wedi'u nodi. Roedd hyn yn ffurfio rhan o'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer y prosiect a gymeradwywyd yn 2022 a bydd yn cael ei adlewyrchu mewn achosion busnes yn y dyfodol wrth i'r dyluniad ddatblygu a'r costau ddod yn fwy eglur.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. O ran costau'r gwaith adeiladu ar y cam hwn o'r prosiect, rydym yn rhagweld y bydd costau'r prosiect yn cynyddu y tu hwnt i'r dyraniad cychwynnol o £23.8 miliwn. Bydd 75% o'r cyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r amcangyfrif mwyaf diweddar yn awgrymu cynnydd o oddeutu £1.9 miliwn. Mae hyn yn unol â'r pwysau ehangach ar gostau adeiladu sydd wedi gweld cynnydd sylweddol mewn costau. Bydd opsiynau gwerth peirianeg hefyd yn cael eu harchwilio er mwyn sicrhau cyn lleied o gynnydd â phosibl, ond mae'n

annhebygol y bydd y rhain yn gwrthbwysu unrhyw bwysau chwyddiant. Bydd yn rhaid i'r Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn a fydd yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru adlewyrchu'r pwysau hwn. Mae'n debygol y bydd angen defnyddio'r cronfeydd wrth gefn cyfredol o gyllid heb ei neilltuo fel rhan o raglen amlinellol Sir Ddinbych ar gyfer Band B. Bydd y costau sy'n gysylltiedig â dod yn Ddi-garbon Net, yn amodol ar gymeradwyo'r Achos Busnes a bodloni cyfraddau safonol, yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru.

6.2. Bydd y prosiect, er ei fod yn cael ei arwain gan y Gwasanaethau Addysg fel y cleient, yn cynnwys ystod eang o wasanaethau yn cydweithio i'w ddarparu. Bydd gwasanaethau fel y Gwasanaethau Cyfreithiol, Caffael, Priffyrdd, Cynllunio, Dylunio ac Adeiladu, TGCh a Chynnal a Chadw yn rhan o'r prosiect ar adegau allweddol i ddarparu cefnogaeth.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Gweler Atodiad C sydd ynghlwm - Adeilad newydd - Ysgol Plas Brondyffryn. Prif gasgliadau'r adroddiad yw:

- Sgoriodd y cynnig 3 allan o 4 seren a 31/36,
- Mae'r cynnig yn ystyried y dyfodol hirdymor o safbwynt y galw am yr ysgol, effaith y buddsoddiad ar ddarpariaeth llain ac o safbwynt buddsoddiad.

7.2. Bydd yr adeiladu ei hun yn helpu'r economi leol a bydd ganddo bwyslais cryf ar fuddion cymunedol a Sir Ddinbych mwy cyfartal.

7.3. Ailedrychir ar yr asesiad a'i ddiweddarau wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda swyddogion o'r polisi addysg a chynllunio. Mae'r asesiad yn nodi bod cyfleoedd, prosesau, cynigion a chymau gweithredu y gellir eu rhoi ar waith a fydd yn lleihau maint yr effaith negyddol a nodwyd.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd â Grŵp Ardal Aelodau Dinbych drwy gydol y prosiect a darparwyd diweddariadau amrywiol ers dechrau'r prosiect yn 2021. Mae barn bresennol y Grŵp wedi'i hadlewyrchu ym mhrif gorff yr adroddiad ynghyd â manylion yr ymgysylltiad yn Atodiad 4. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig i

ymestyn nifer y lleoedd yn yr ysgol. Cwblhawyd hwn yn ffurfiol gan y Cabinet ym mis Chwefror 2023 pan roddwyd cymeradwyaeth i weithredu'r cynnig, yn amodol ar gytuno ar safle, cymeradwyo caniatâd cynllunio, bod y cyllid ar gael a bod yr adeilad newydd yn gallu ymdopi â'r cynnydd mewn nifer y lleoedd. Os byddai'r prosiect yn parhau bydd angen addasu'r cynnig i adlewyrchu dyddiad gweithredu diwygiedig.

- 8.2. Mae Pennaeth Ysgol Plas Brondyffryn a'r Llywodraethwyr wedi bod yn rhan o ddatblygiad y prosiect a byddant yn ymgysylltu'n rheolaidd pe bai'r prosiect yn mynd yn ei flaen. Ymgysylltwyd hefyd â Phennaeth a Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Dinbych i sicrhau eu bod wedi cael gwybod am sefyllfa bresennol y prosiect hwn a sut y bydd yn effeithio ar eu hysgol ynghyd â sut y gall eu prosiect fynd yn ei flaen.
- 8.3. Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig wedi darparu adborth ar y cynnig gan leisio pryderon am yr effaith ar reoli traffig yn y Ganolfan Hamdden sy'n agos ynghyd â'u pryder y gallai'r cynigion effeithio ar unrhyw gynlluniau ehangu a allai fod gan y Cwmni yn y dref yn y dyfodol. Ymgynghorwyd â phrifyrdd ar y cynigion ac nid ydynt wedi mynegi unrhyw bryderon o safbwynt effaith priffyrdd. Mae'r safle dan sylw yn rhan o'r portffolio Addysg o safbwynt rheoli asedau a'r flaenoriaeth ar gyfer y safle hwn fyddai gwella arlwy addysg y Cyngor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Er bod 75% o'r prosiect yn cael ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru, mae hwn yn parhau i fod yn fuddsoddiad ariannol sylweddol i'r Cyngor, gyda'r holl risgiau ariannol y mae'n eu cynnwys. Rydym mewn cyfnod o gynnydd chwyddiant o ran costau ac mae pwysau difrifol ar ein cyllidebau cyfalaf a referniw oherwydd lefelau cyllid gan y llywodraeth a phwysau eraill ar draws y Cyngor. Mae'n bwysig bod y pryderon o ran cyllid a dynnwyd sylw atynt yn Adran 6 yn cael eu trin cyn cymeradwyo'r achos busnes terfynol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Mae risg amlwg y gallai'r cynigion gael eu gwrthwynebu gan Aelodau Lleol pan fydd unrhyw gais cynllunio'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio. Mae'r

Aelod Arweiniol a'r Swyddogion wedi cwrdd ag Aelodau Lleol i roi cyfiawnhad dros y cynigion ac egluro pam fod y safle a ffefrir wedi'i gynnig.

10.2. Mae risg i'r gwasanaeth a'r Cyngor pe byddai'r prosiect yn cael ei oedi mewn perthynas â'r pwysau cynyddol i ddisgyblion gael eu lleoli mewn darpariaeth arbenigol fel Ysgol Plas Brondyffryn. Os nad yw Sir Ddinbych yn gallu bodloni anghenion mewn darpariaeth priif ffrwd neu arbenigol, efallai y bydd angen dilyn lleoliad y tu allan i'r sir i fodloni anghenion disgyblion unigol. Bydd methiant o'r fath i ymestyn yn rhoi pwysau pellach ar y gorwariant presennol ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r sir. Bydd costau darpariaeth o'r fath bob amser yn amrywio gan ddibynnu ar anghenion unigol disgyblion a gallent amrywio o £30 y flwyddyn i £280,000 y flwyddyn. Byddai'r costau hyn yn cynyddu yn enwedig lle mae angen darpariaeth breswyl oherwydd y pellter o'r cartref i'r lleoliad gyda chostau diweddar i'r Gwasanaethau Plant yn amrywio o £250,000 y flwyddyn i gost diwedd uchel o £450,000 y flwyddyn. Gall absenoldeb darpariaeth yn Ysgol Plas Brondyffryn hefyd roi pwysau ychwanegol ar ysgolion priif ffrwd lle na ellir diwallu anghenion disgyblion yn ddigonol gan arwain at gostau ychwanegol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Adran 14 o'r Ddeddf Addysg yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o ysgolion i ddarparu addysg gynradd ac uwchradd.